



CULTURE
ACTION
LLANDUDNO CIC

MOSTYN COURT, 2 MOSTYN STREET, LLANDUDNO LL30 2PS

COMPANY NUMBER 9152494

INFO@CULTUREACTIONLLANDUDNO.CO.UK

WWW.CULTUREACTIONLLANDUDNO.CO.UK

Galwad Agored am Gynhyrchydd Creadigol

TRE CWM CELF

Prosiect preswyl

Pwy ydyn ni?

Menter gymdeithasol yw CALL a sefydlwyd i edrych ar sut y gall y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth fod yn rhan annatod o adfywiad a dyfodol y dref.

Mae gwaith traws-sector a gweithio mewn partneriaeth yn rhan fawr o'n hethos. Sefydlwyd ein menter gymdeithasol i ddarparu un o'r saith Syniad: Prosiect Pobl: Lleoedd a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Rydym yn bwriadu parhau â'r gwaith hwn yn awr gyda phrosiect preswyl dwy flynedd a gefnogir gan Sefydliad Paul Hamlyn, mewn partneriaeth â Cartrefi Conwy (<https://cartreficonwy.org>) Tai Gogledd Cymru (<https://www.nwha.org.uk/>), Canolfan Gymunedol Tŷ Llywelyn, ac oriel MOSTYN (www.mostyn.org).

Y Prosiect

Mae Stad Dai Tre Cwm yn Llandudno wedi'i hamgylchynu gan wal (140m o hyd a 2m o uchder i'w gadarnhauTBC) sy'n gwahanu'r gymuned sy'n byw yno oddi wrth y dref gyfagos. Rydym yn bwriadu datblygu gwaith celf gyda'r gymuned sy'n trawsnewid y ffin hon, gan fynd i'r afael â'r materion y mae bodolaeth y wal yn ei ategu sef cau pobl allan ac i mewn, gwahardd, creu rhwyg ac ynysu cymdeithasol. Rydym am gomisiynu Artist sy'n cael ei gefnogi gan Gynhyrchydd Creadigol i weithio gyda'r gymuned yn Nhref Cwm i gyd-awdura'r gwaith celf hwn mewn modd sy'n galluogi'r gymuned honno.

Wrth weithio gyda phartneriaid allweddol yn y sectorau celfyddydau a thai, bydd ein prosiect yn arbrofi gyda syniadau ynghylch adfywio dan arweiniad artistiaid a chynllunio lleoedd dan arweiniad y gymuned, gan hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol a balchder cymdeithasol yn ogystal â chynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau.

Bydd yr Artist a'r Cynhyrchydd Creadigol a gomisiynir i ymgymryd â'r gwaith yn gweithio gyda'r trigolion a fydd yn cyfranogi gydag ymchwil a datblygiad y prosiect, byddant yn dylunio, cynllunio a chreu'r gwaith, yn ogystal â'i osod a'i werthuso.

Bydd holl weithgareddau, gweithdai, digwyddiadau ac ymyriadau'r prosiect a sbardunwyd gan yr artist(iaid) a gomisiynir a gyda chefnogaeth y cynhyrchydd creadigol, yn meithrin amgylchedd ddiogel, cyffrous ac ysgogol i breswylwyr y Stad Dai ryngweithio â'i gilydd. Byddant yn darparu'r modd i feithrin perthynas rhwng trigolion, yr artist / cynhyrchydd a'n partneriaid traws-sector yn y Celfyddydau a'r maes Tai. Rydym am ymgysylltu â chylch gorchwyl ehangaf y gymuned gan gynnwys pobl ifanc dan anfantais, unigolion ag anableddau dysgu a chorfforol a thrigolion hŷn.

Gyda'r prosiect hwn, rydym am holi'r cwestiynau canlynol:

- A fydd meddu ar etifeddiaeth artistig arfaethedig o'r cychwyn yn dylanwadu ar y broses o ymgysylltu, a'r cwestiwn o gyda "phwy" yn ogystal â "sut" rydym yn ymgysylltu?
- A fydd datblygu proses ymgysylltu cymunedol-benodol yn ogystal â chreu gosodiad artistig hirdymor ar raddfa fawr yn newid effaith byr dymor, tymor canolig a thymor hir y prosiect?
- A fydd y metamorffosis artistig hwn o'r wal ffiniol yn meddalu'r syniadau rhagdybiedig a'r argraffiadau negyddol sydd gan y gymuned ehangach am drigolion y Stad?
- Sut fydd y prosiect yn cynyddu mynediad, sgiliau, hyder, hunan-gred a chymhelliant y cyfranogwyr?
- A fydd y gwaith celf gorffenedig yn creu balchder lleol ac yn annog ymddygiad gadarnhaol ac yn arwain at gyfranogiad pellach?

Bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn cynyddu ein dealltwriaeth am sut ac os yw cydweithio rhwng cymunedau, artistiaid a landlordiaid i gyd-awdura a chreu gofod yn ddull ymarferol o weithio yng Ngogledd Cymru gyda'r bwriad o eirioli am eu datblygiad pellach yn y rhanbarth hwn.

Rydym yn gobeithio darganfod sut y bydd gweithio ar y cyd gydag artistiaid yn gallu:

- Rhoi sgiliau trosglwyddadwy i gyfranogwyr a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer datblygiad personol, cyflogadwyedd a datblygiad cymdeithasol a lles
- Gwella cydlyniant cymunedol trwy ymgysylltu a datblygu ar y cyd elfen weladwy o'r amgylchedd.
- Ymladd ynysu cymdeithasol trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o ryngweithiadau / gweithgareddau / dadleuon
- Mynd i'r afael â materion o fandaliaeth a diffyg balchder dinesig
- Gwella perthynas trigolion â'i gilydd a gyda'n partneriaid yn y sector tai a chelfyddydau

- ❑ Adeiladu tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio, fel y gallwn wella ein harfer a chael mwy o effaith gyda'n gwaith
- ❑ Darganfod modelau ymgysylltu amgen sy'n berthnasol i'r gymuned hon
- ❑ Ein galluogi ni i rannu ein canfyddiadau gyda'n partneriaid yn y sector celfyddydau a thai

Gwerthusiad

Mae'n hanfodol i ni ein bod yn cofnodi ein dysgu trwy gydol y broses hon. Felly, bydd y broses werthuso a pharatoi dogfennaeth yn ffactor allweddol yn y prosiect. Mae'n gyfartal o ran pwysigrwydd wrth gyflwyno'r prosiect. Bydd yr artist a gomisiynir yn cymryd rhan fawr yn y broses hon ac mae posibilrwydd y bydd yr artist hefyd yn arwain ar yr agwedd hon o'r prosiect gyda chefnogaeth gan y cynhyrchydd creadigol neu i'r gwrthwyneb. Drwy gydol y prosiect, bydd yr wybodaeth a nodwyd trwy ein strategaeth werthuso yn cael ei asesu a'i gasglu. Byddwn yn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gasglu yn parhau i fod yn berthnasol trwy adolygu ein strategaeth werthuso yn rheolaidd a'i ddatblygu os oes angen. Bydd y wybodaeth a'r ddogfennaeth yn cael ei hadolygu a'i rhoi ar-lein, gan greu adnodd y gellir ei adeiladu dros gyfnod y prosiect. Bydd yr adnodd hwn yn cynnwys ffotograffau, sgysiau a recordiwyd, ffilmiau, mapiau, ymchwil ac arolygon, dyluniadau, gwaith celf, meddyliau a datblygiadau. Bydd yr adnodd ar-lein hwn yn gyhoeddus, fel y gall y cymunedau yr ydym yn gweithio gyda nhw weld sut mae'r prosiect yn datblygu a sut mae'r canlyniadau ymarferol a mwy haniaethol yn cael sylw. Erbyn diwedd y prosiect, dylem fod ag adnodd ar-lein deinamig, fydd yn golygu bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu ag eraill yn ogystal â chofnodi camau datblygu'r prosiect, ei lwyddiannau a'i fethiannau. Mae gennym ddi-ddordeb mawr mewn artistiaid sydd â phrofiad blaenorol o weithio fel hyn neu sy'n teimlo y gallent weithio yn y modd hwn gyda chefnogaeth eu cynhyrchydd creadigol.

Yr hyn yr ydym yn ei gynnig

Rydym yn chwilio am Gynhyrchydd Creadigol a all ymrwymo amser i'r prosiect hwn dros gyfnod o 21 mis.

- Bydd gennych ddefnydd o swyddfeydd CALL yn Llandudno.
- Byddwch yn cefnogi'r arlunydd gyda chynllunio, ymgysylltu, gwerthuso a chyflwyno'r prosiect. Os oes arlunydd rydych chi'n gweithio gyda nhw yn rheolaidd ac yr hoffech wneud cais ar y cyd â nhw, gweler manylion am rôl yr artist yma www.cultureactionllandudno.co.uk
- Byddwch yn derbyn ffi gyfanswm o £16,000 dros 21 mis, sy'n cynnwys teithio a llety ar gyfer Cynhyrchwyr Creadigol sy'n byw y tu allan i Ogledd Cymru.
- Mae potensial o dderbyn ffi ychwanegol ar gyfer gwerthuso. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfweiliad.
- Mae potensial o dderbyn ffi ychwanegol os ydych chi'n gallu darparu dogfennaeth y prosiect eich hun (ffilmio a ffotograffiaeth). Bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod y cyfweiliad.

Y gwaith celf a gomisiynir:

- Mae angen i'r gwaith gorffenedig fod ar gyfer defnydd allanol ac yn wydn iawn
- Mae angen i'r gwaith celf fynnu ychydig iawn o waith cynnal a chadw
- Mae angen i'r gwaith gorffenedig fod yn wydn i fandaliaeth
- Mae'r angen i'r gwaith gorffenedig gysylltu â'r gymuned i greu ymdeimlad o hunaniaeth a lle

Llywodraethu

Bydd y Cynhyrhydd Creadigol yn cael ei gomisiynu gan CALL a bydd yn atebol i grŵp llywio'r prosiect, a fydd yn cynnwys aelodau'r holl sefydliadau partner. Rhoddir cymorth ymarferol trwy CALL a Cartrefi Conwy, fodd bynnag bydd angen i chi allu gweithio'n annibynnol a gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth.

Sut i wneud cais

Anfonwch e-bost at lythyr o gais o leiaf 500 o eiriau a'ch CV. Yn y llythyr, dylech amlinellu'r profiad perthnasol canlynol gan gynnwys:

2. Y gallu i weithio gyda chyllideb ac i gyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb hon
3. Y gallu i gyflwyno prosiect ar amser ac o fewn amser penodol
4. Y gallu i weithio gyda'n gweinyddwr Cyllid i alluogi anfonebu a thalu
5. Y gallu i weithio gyda demograffeg eang o bartneriaid a rhanddeiliaid cymunedol
6. Y gallu i farchnata'r prosiect lle mae'n berthnasol i'r gymuned
7. Profiad blaenorol o werthuso a syniadau ynghylch sut i werthuso'r prosiect hwn.

Amserlen a phroses y cais:

Galwad Agored yn cychwyn	15fed Chwefror 2019
Dyddiad cau'r cais	15fed Mawrth 2019
Dyddiad y Cyfweiliadau	Wythnos yn dechrau 25eg Mawrth 2019
Cynigion yn cael eu gwneud	Wythnos yn dechrau 25eg Mawrth 2019
Dyddiad dechrau'r prosiect	Ebrill 2019

Os gwelwch yn dda anfonwch bob cais at nicole@cultureactionllandudno.co.uk erbyn 5y.h. Ddydd Iau, 15fed Mawrth 2019. Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais.

Am ragor o wybodaeth amdanom ni, ewch i www.cultureactionllandudno.co.uk i gael syniad o'r math o brosiectau yr ydym wedi'u rhedeg yn y gorffennol.